YMROWCH I SICRHAU EICH HYDER YN GADARN HYD Y DIWEDD

Nodyn i'r siaradwr:
Seilir y wybodaeth hon ar Hebreaid penodau 3 a 4. Helpwch y gynulleidfa i weld sut y gall person ddirnad a yw mewn unrhyw ffordd wedi caniatáu i'w hyder yng ngair Jehofah ddiffygio

YN Y BYD HWN ANODD YW YMROI I SICRHAU HYDER (5 mun.)

Mae pwysau, gwrthwynebiad, difaterwch, a gwangalondid yn effeithio ar bawb ohonom

Fel yr apostol Ioan, mae Cristionogion yn dweud: "Amen. Tyrd, Arglwydd Iesu!" (Dat 22:20)

Hoffent weld ewyllys Duw yn cael ei gwneud ar y ddaear fel yn y nef

Rhaid glynu'n gadarn hyd ddiwedd naill ai'r drefn bresennol neu ein bywydau ein hunain (Mth 24:13)

'Ydym ni'n dal ein gafael yn yr hyder hwnnw?

Ceir cyngor cryf i'n helpu i ddal ein gafael yn llyfr yr Hebreaid yn y Beibl (*w*83 2/15 17-18; *w*73 213-16; *it*-1 1077-80)

Ysgrifennwyd e at Gristionogion Iddewig, oedd yn cael amser caled, llawer o bwysau

'Roedd rhai o'r Cristionogion yn apathetig, rhai yn ysbrydol wan neu'n anaeddfed, rhai yn or-hyderus

Byddai'n dda inni wrando ar y cyngor hwnnw (1Cor 10:12)

CYNGOR PAUL I'R CRISTIONOGION HEBREAIDD (30 mun.)

(Gwahoddwch y gynulleidfa i ddilyn yn Hebreaid pennod 3 wrth drafod yr adnodau fesul un. Darllen adnod[au], yna gwneud sylwadau)

Adnod 1:

Trwy Grist y daw ein nerth i gynnal ein hyder

"Ystyriwch." Myfyriwch ar y cariad a ddangosodd ar y ddaear, ei aberth, ei atgyfodiad, a'i urddas fel apostol (neu, "anfonedig") Duw, fel Archoffeiriad mawr nefol, ac fel Pen y gynulleidfa (Heb 2:14, 15; *w*83 2/15 19-20)

Ystyriwch sut mae eich bywyd chi'n cymharu, gan fyfyrio ar rai o dreialon Iesu a allai fod wedi achosi iddo wangalonni (Mth 20:20, 21; Mc 3:5; 9:19; Lc 9:46-48; 22:24)

Adnodau 2-4:

'Roedd Crist yn llawer uwch na Moses, er i Moses gyflawni llawer o bethau gwyrthiol yn Israel

Dan gyfarwyddyd Duw Crist sy'n adeiladu pob peth, gan gynnwys y gynulleidfa Gristionogol, a luniwyd ganddo ac yntau'n Athrylith Meistrolgar Duw (Diar 8:30, 31 *NW;* *w*84 9/15 31; *w*81 10/1 20)

Jehofah y Pensaer a'r Creawdwr piau'r gogoniant

Adnodau 5, 6:

Er cymaint mawredd Moses, dim ond gwas mewn tylwyth ydoedd, ond Crist yw *Mab* Perchennog y tŷ, wedi'i osod dros y tylwyth gan Dduw (*w*84 9/15 31)

'Ydym ni eisiau cefnogi'r tylwyth mawr hwn, cynulleidfa Israeliaid ysbrydol?

Rhaid peidio â diffygio ond dal ein gafael yn dynn ar rydd-deb ymadrodd (*NW*) ac ymroi i sicrhau llawenydd, neu "falchder"

Adnod 7:

Dywedodd yr ysbryd sanctaidd (yn Salm 95:7-11): "heddiw"; 'nawr yw'r amser cymeradwy

'Wyddom ni ddim beth ddaw yfory

Anogodd Pedr: 'Disgwyliwch am Ddydd Duw' (2Pedr 3:12)

Mae hyn yn golygu y dylem ni fod yn cyflawni'n hoblygiadau Cristionogol *bob dydd*

Fe ddaw "Dydd Duw" fel lleidr; fe all ein bywyd ni ein hunain derfynu yfory

Adnodau 8-11:

Gwnaeth Israel bethau i roi prawf ar Dduw ynghylch a fyddai'n cadw'i air (*it*-2 350-1)

Wrth rwgnach, eu bod yn anhapus â'i ddarpariaethau, rhoesant brawf ar Dduw ynghylch faint a oddefai, pa mor hir y parhâi ei amynedd (Ex 32:1-4; *w*86 4/1 23-4)

Adnod 12:

Rhaid ein harchwilio'n hunain ynglŷn â'r hyn sy'n ein calonnau, peidio colli ffydd, sylweddoli y daw addewidion Duw yn wir

Nid yw calon ddrwg yn ymddangos ar unwaith ond yn datblygu'n raddol (*w*80 12/1 22-3; *w*89 7/15 22)

Adnod 13:

'Nawr yw'r amser i *bob un* ohonom fod yn agos at y brodyr, peidio â chwyno na dangos gwendid, ond bod yn *gryf* i galonogi'n gilydd (*w*86 4/1 24-6)

Efallai eich bod chwi'n teimlo'n wan, ond wrth annog rhywun arall, 'rydych yn cael anogaeth gan Dduw

Mae pechod yn dwyllodrus iawn

Mae'n ymosod ar ein mannau gwan, yn ein goddiweddyd os ydym yn digalonni, neu'n apathetig, neu'n esgeulus neu os awn yn or-gyflawn, yn beirniadu eraill, a bod yn anghynnes at broblemau ein brodyr

Adnod 14:

Sut oeddech chi'n teimlo'r tro "cyntaf" wrth i chi ddechrau gwasanaethu Jehofah Dduw?

Brwdfrydig, hy, llawen, hyderus? 'Ydych chi'n dal i fod felly? (*w*80 8/1 16-17)

'Nawr, ag ehangach gwybodaeth gennych, ydych chi wedi tyfu i aeddfedrwydd? Os nad ydych, pam? 'Oes problemau wedi codi?

Mae eich gwybodaeth heddiw'n ehangach na phan ddechreusoch chi, felly 'rydych wedi'ch darparu i wynebu problemau dwysach

Os nad oes hyder gennych, gofynnwch i Dduw am help

Adnod 15:

Mae'n cael ei ddweud gan Dduw *heddiw,* fel yr oedd y pryd hwnnw

'Chlywn ni ddim ei lais na llais angel yn hyglyw, ond mae gennym Ei Air ysbrydoledig

Nid yw Duw yn bell oddi wrthym (Act 17:27)

Hefyd mae gennym yn esiampl frodyr ym mhob rhan o'r byd yn ymroi i sicrhau eu hyder; maent yn cael eu bendithio

Adnodau 16-19:

Methu fu hanes y mwyafrif a welodd weithredoedd gwyrthiol Duw ac a groesodd y Môr Coch gyda hyder; ni chawsant fynd i Wlad yr Addewid

Er y gallent fod wedi ailennill eu hyder, 'roeddent yn dal i gwyno; oherwydd eu diffyg ffydd deddfodd Duw y dylent farw yn yr anialwch

Dim ond Joshua, Caleb, a'r Lefiaid a oroesodd i fynd i mewn i Wlad Addawedig Duw (*it*-2 1016)

Y Lefiaid oedd yr unig lwyth na yrrodd ŵr i ysbio'r wlad, felly 'roeddent wedi'u heithrio oddi wrth y condemnio ar yr ysbiwyr anffyddlon a'u cefnogwyr

Ni ddylai ystyried yr hyn ddigwyddodd i'r Israeliaid olygu y dylem ni boeni neu *ofni*

Dylem ddangos consýrn a bod yn *wyliadwrus; dim ond y rhai sy'n wir anufudd fydd yn cwympo,* yn union fel y pryd hwnnw

Pennod 4:1, 2:

Fel unigolion, 'fedrwn ni ddim yn gywir gwyno yn erbyn Duw

Onid ydym yn mwynhau yr un bwyd ysbrydol?

Yr un newyddion da sydd gennym, addewid gorffwys yng nghyfundrefn newydd Duw

Rhaid i bawb, yn henuriaid ac eraill, fod yn ofalus; os oes rhai'n ymddangosiadol ddiffygiol, anogwch nhw

Efallai mai dim ond *ymddangos* y mae fod y rhain yn colli ffydd, felly dylem ddynesu atynt â brawdgarwch, gan ystyried eraill yn well na ni'n hunain, gan gofio y medrwn ninnau hefyd gael ein temtio (Gal 6:1; Phil 2:3)

Mae angen rhagor na chlywed yr addewid; mae angen gwir ffydd o'r galon

'Ydym ni'n meddwl ac yn gweithredu gyda'r ffydd honno fod addewid Duw yn realiti, ynghyd â'r rhai sydd â ffydd ganddynt?

GALLWN FOD Â HYDER YNG NGAIR DUW (10 mun.)

Adnod 11:

Mae angen mwy na'r sylw arferol 'nawr wrth i'r amserau ddwysau o ran tyndra (*w*83 2/15 26)

Mae gennym rybudd enghreifftiol yn niffyg ffydd Israel, colli hyder

Adnod 12:

Mae addewid gair Duw yn sicr (*w*76 439)

Nid yw wedi rhoi'r gorau iddo na'i anwybyddu fel petai'r peth wedi darfod

Mae Jehofah yn weithredol, yn cyflawni'i addewid yn gynyddol ac yn sicr

Beth yw'n hagwedd ni at air addewid Duw?

Mae Duw yn 'nabod ein calonnau; 'rydym yn atebol iddo

Rhaid inni beidio â chaniatáu i'n hyder wanhau, fel gwnaeth Israel

Bydd ein gweithredu ynglŷn ag addewid Duw yn dangos beth ydym mewn gwirionedd (*gm* 175-83; *w*88 5/1 7; *w*86 4/1 6-7)

Mae gofyn i bawb ohonom roi sylw gofalus i addewid Duw a phopeth a ddywed y Beibl ynglŷn ag ef

Bydd myfyrio rhagor arno yn rhoi *grym* inni; bydd yn gwneud ein hysbryd yn gadarn, yn hyderus

Adnod 13:

Gan fod pob peth wedi ei ddinoethi o flaen Duw, mae'n angenrheidiol dibynnu arno, a dod yn gyfaill agos iddo

Iddo ef yn unig 'rydym yn rhoi cyfrif (*w*80 4/1 27)

Adnodau 14-16:

Ymwrolwch; adenillwch eich llawenydd; cadarnhewch eich hyder

Parhewch i gyhoeddi ein Harchoffeiriad a'n Brenin

Neséwch at Jehofah drwy Iesu am gymorth yn ein gwendidau

Gwnewch hyn yn ddi-ofn ac â llawn hyder, heb ddibynnu ar ein nerth ein hunain

Os gwnawn ni hyn, gallwn fod yn sicr yr wynebwn y diwedd â ffydd gadarn a llawenydd, gyda hyder llwyr yng nghariad Duw a'r wobr a rydd (*w*89 2/15 13)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at amser penodedig pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)